# Canllaw ar y Peiriant Ocsigen Cludadwy Inogen G5



baywater HEALTHCARE

NHS
Providing NHS services

# Cynnwys

Peiriannau Ocsigen Cludadwy **3**

Dod i Adnabod Rhannau o'ch Peiriant Inogen **4**

Sut mae defnyddio eich Peiriant Inogen G5 **5**

Amser Gweithredu Arferol Pecyn Batri Newydd **6**

Byddwch yn Ddiogel **7**

Datrys Problemau **8**





ENHANCING LIVES



# Peiriannau Ocsigen Cludadwy

Dyfais fach yw peiriant ocsigen cludadwy, sy'n eich galluogi i symud o gwmpas y tu allan a'r tu mewn i'ch cartref. Gall y peiriant redeg drwy ddefnyddio trydan, batri neu ei blygio i mewn i'r allfa DC mewn cerbyd.

**Mae'n bwysig bod y gosodiad llif a ofynnwyd amdano gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol yn cael ei ddefnyddio.**

Sylwch: Mae'r peiriant Inogen G5 yn parhau i fod yn eiddo i Baywater Healthcare, ac mae ar fenthyg i'r GIG

# Dod i Adnabod Rhannau o'ch Peiriant Inogen





**A** Gosod y pigynnau trwynol
**B** Panel rheoli
**C** Fent wacáu (croes)
**D** Pecyn batri
**E** Mewnfa aer
**F** Twll USB - dim ond ar gyfer gwasanaethu (y tu ôl i'r hidlydd)

### Rhybudd

Sicrhewch fod y peiriant ocsigen yn cael ei gadw ar i fyny bob amser.

Gwnewch yn siŵr bod y gosodiad llif ar y peiriant ocsigen wedi'i osod ar y gosodiad llif a gafodd ei archebu gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.




# Sut mae defnyddio eich Peiriant Inogen G5



### 1. Botwm On/Off

Pwyswch unwaith i'w droi ymlaen, a phwyswch a'i ddal am eiliad i'w ddiffodd. Pwyswch am gyfnod byr i gael y golau ôl.



### 2. Botwm cynyddu neu leihau gosodiad llif

Defnyddiwch y botymau hyn i osod y llif i'r lefel a gafodd ei rhoi ar bresgripsiwn i chi.



### 3. Dangosydd goleuadau

Ffoniwch Baywater Healthcare os ydych chi'n gweld golau coch neu ambr.



### 4. Botwm rheoli lefel y sain

Os byddwch chi'n pwyso'r botwm hwn, bydd lefel y sain yn newid o 1 i 4.



### 5. Botwm rhybudd clywadwy

Pwyswch y botwm i droi'r larwm ymlaen neu i ddiffodd y larwm, sef y botwm sy'n gallu synhwyro bob tro y byddwch chi'n cymryd anadl. Bydd y peiriant yn canu, a bydd yn dechrau rhyddhau ocsigen yn ysbeidiol os na fyddwch chi'n cymryd anadl am fwy na 60 eiliad ar ôl i'r botwm rhybudd clywadwy ddangos ar y sgrin.

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Amser Gweithredu Arferol Pecyn Batri Newydd

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amser y bydd pecyn batri newydd yn debygol o bara pan fo'r gosodiad ar gyfraddau gwahanol.

| Gosodiad cyfradd llif | Modd llif pwls (gosodiad) |
|---|---|
| 1 | 13 awr 28 munud |
| 2 | 10 awr 22 munud |
| 3 | 7 awr 1 munud |
| 4 | 4 awr 55 munud |
| 5 | 3 awr 48 munud |
| 6 | 2 awr 58 munud |

| Siart yn dangos faint o fatri sy'n weddill | |
|---|---|
| 4 LED wedi'u goleuo | 75% i 100% llawn |
| 3 LED wedi'u goleuo | 50% i 75% llawn |
| 2 LED wedi'u goleuo | 25% i 50% llawn |
| 1 LED wedi'u goleuo | 10% i 25% llawn |
| 1 LED (fflachio) | Mae'r batri'n llai na 10% llawn, ac mae angen ei ailwefru |

**Rhybudd**
Cadwch eich pecyn batri'n sych bob amser. Os bydd y batri'n dod i gysylltiad â hylif, peidiwch â'i ddefnyddio a ffoniwch Baywater Healthcare Gall pecynnau batri gwlyb achosi peryglon diogelwch, gan gynnwys tân a sioc drydanol.

# Byddwch yn Ddiogel

- Cadwch y peiriant Inogen a'r cebl pŵer i ffwrdd oddi wrth arwynebau poeth a fflamau.
- Peidiwch â defnyddio'r peiriant os oes cebl pŵer neu blwg wedi'i ddifrodi arno.
- Dylai eich peiriant Inogen gael ei ddefnyddio mewn man sydd â llif aer da.
- Dim ond yr ategolion sydd wedi'u rhoi gennym ni y dylech chi eu defnyddio gyda'r ddyfais hon.
- Os bydd y peiriant Inogen wedi'i ollwng, ei ddifrodi neu wedi dod i gysylltiad â dŵr, peidiwch â'i ddefnyddio a ffoniwch Baywater Healthcare ar 0800 373580.
- Peidiwch â blocio'r fewnfa aer na'r fent wacáu ar y peiriant Inogen.
- Peidiwch â rhoi blanced, tywel na chwilt ac ati dros y ddyfais.
- Wrth ddefnyddio'r ddyfais mewn cerbyd, gwnewch yn siŵr ei bod wedi'i diogelu'n briodol a'i bod ar i fyny, a gwneud yn siŵr bod gwresogydd neu ataliad arall o'i chwmpas.
- Peidiwch â gadael eich peiriant Inogen, na'ch pecyn batri, yn ardal eistedd neu gist eich cerbyd ar ddiwrnod poeth neu oer iawn.

**Rhybudd**

Peidiwch â lapio'r cordyn pŵer o amgylch y pecyn pŵer.

Gwnewch yn siŵr mai dim ond cordyn pŵer y peiriant Inogen G5 rydych chi'n ei ddefnyddio.

Cadwch eich offer o'r golwg pan fyddwch chi'n gadael y car heb oruchwyliaeth.

Dylech bob amser dynnu batris o'r peiriant Inogen G5 pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Peidiwch â rhoi'r peiriant Inogen G5 mewn soced wal diffygiol a, lle bynnag y bo modd, tynnwch y plwg o'r peiriant pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Datrys problemau

## Beth i’w wneud os nad oes ocsigen yn cael ei gynhyrchu

Os nad oes ocsigen yn cael ei gynhyrchu, gall hyn ddangos bod y ddyfais wedi’i diffodd. Rhowch gynnig ar wasgu’r botwm pŵer i’w droi ymlaen ac edrych ar faint o fatri sy’n weddill. Gwiriwch fod y pigynnau trwynol wedi’u cysylltu’n gywir. Os nad yw’r datrysiadau hyn yn gweithio, ffoniwch Baywater Healthcare ar 0800 373580.

## Beth i’w wneud os nad yw’r peiriant ocsigen cludadwy yn troi ymlaen ar ôl gwasgu’r botwm ‘On’



Nid yw’r peiriant ocsigen cludadwy yn dod ymlaen wrth bwyso’r botwm ‘on’. Yn gyntaf, gwnewch yn siŵr bod y pecyn batri wedi'i gysylltu'n gywir. Os yw’r pecyn batri eisoes wedi’i gysylltu’n gywir, mae’n bosibl nad oes digon o fatri i’w droi ymlaen. Plygiwch y ddyfais i mewn i’r prif gyflenwad trydan i’w gwefru. Os nad yw’r datrysiadau hyn yn gweithio, ffoniwch Baywater Healthcare ar 0800 373580.

## Beth i’w wneud os bydd y larwm sy’n canfod diffyg anadl yn parhau i seinio, neu os nad oes modd clywed sŵn hisian wrth anadlu

Os bydd y larwm sy’n canfod diffyg anadl yn parhau i seinio, neu os nad oes modd clywed sŵn hisian wrth anadlu, cysylltwch â'ch Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol, oherwydd mae’n bosibl y bydd angen adolygiad clinigol arnoch.

**Os nad yw’r camau uchod yn datrys y broblem, ffoniwch Baywater Healthcare i gael rhagor o arweiniad.**

# Nodiadau

# Nodiadau

# Nodiadau



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk
@BaywaterHealth
Baywater Healthcare
Baywater Healthcare

baywater HEALTHCARE

This leaflet is also available in English

ENHANCING LIVES

24/742/UK-MAY24 v1